OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 274

## Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2018

**Dangos y cynnwys ffrwythau**

**6.**—(1) Rhaid i berson beidio â masnachu mewn cynnyrch a reoleiddir sydd wedi ei restru yn Rhan 1 o'r tabl yn Rhan 1 o Atodlen 1 oni bai bod labeli'r cynnyrch yn dangos cynnwys ffrwythau'r cynnyrch yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Rhaid i'r cynnwys ffrwythau gael ei ddangos drwy gynnwys y geiriau "prepared with x g of fruit per 100 g" gan osod faint mewn gramau o ffrwythau y deilliodd y mwydion ffrwythau, y piwrî ffrwythau, y sudd ffrwythau, y pilion ffrwythau a'r echdynnyn dyfrllyd ffrwythau ohonynt a ddefnyddiwyd am bob can gram o'r cynnyrch gorffenedig yn lle "x".

(3) Os defnyddir echdynion dyfrllyd, rhaid i gynnwys ffrwythau'r cynnyrch gorffenedig fel y'i dangosir ar labeli'r cynnyrch gael ei gyfrifo ar ôl tynnu pwysau unrhyw ddŵr a ddefnyddiwyd i baratoi'r echdynion dyfrllyd.

(4) Rhaid i'r mynegiad o'r cynnwys ffrwythau ymddangos yn yr un cylch golwg ag enw'r cynnyrch ac mewn arwyddnodau y gellir eu gweld yn eglur.

(5) Yn ogystal â'r geiriau sy'n ofynnol yn rhinwedd paragraff (2), caniateir cynnwys y geiriau "paratowyd â x g o ffrwythau am bob 100g", gan osod faint mewn gramau o ffrwythau y deilliodd y mwydion ffrwythau, y piwrî ffrwythau, y sudd ffrwythau, y pilion ffrwythau a'r echdynnyn dyfrllyd ffrwythau ohonynt a ddefnyddiwyd am bob can gram o'r cynnyrch gorffenedig yn lle "x".

(6) Nid oes dim ym mharagraffau (2) neu (5) yn atal cynnwys y geiriau sy'n ofynnol yn rhinwedd paragraff (2) mewn unrhyw iaith arall yn ogystal â'r Gymraeg a Saesneg.